

## 104.01 GWRTEITHIAU AR GYFER AILHADU

I gael eginiad da, uchafu'r cnwd ac ymestyn bywyd gwyndwn newydd, mae hi'n bwysig talu sylw astud i ffrwythlondeb y pridd.

### PAM PROF'I'R PRIDD?

Os yw priddoedd un ai yn isel mewn ffosffad (P), yn isel mewn potash (K), neu yn asidig, yna ni fydd ailhadu newydd yn perfformio fel y dylai. Gellid gwastraffu'r holl arian wariwyd (tua £250/hectar) os yw lefel maethol y pridd yn wael.

### CALCH

Mae ailhadu yn gyfle da i chwalu ac ymgorffori calch mewn priddoedd tir glas.

Lleiafswm pH pridd i briddoedd mwynol\*

Glaswellt 6.0

Meillion 6.0

Cnwd gorchudd haidd 6.2

Chwalwch galch ar ôl aredig a'i weithio i'r hadwely. Os argymhellir defnyddio mwy na 3t/erw yna dylid ei chwalu dros 2 flynedd. Gall chwalu trwm greu llecynnau ble fydd yr eginiad yn gostwng gan effeithio ar y maetholion fydd ar gael. Gall pH rhy uchel hefyd beri diffygion o ran elfennau hybrin.

\* Dylid calchu pridd mawn i pH 5.5

### FFOSFFORWS (P) A POTASH (K)

Mae egin glaswellt angen y rhain i ysgogi tyfiant gwreiddiau ac i reoli'r dŵr a gollir a llif maetholion. Heb P a K digonol, ni fydd y nitrogen yn cael ei ddefnyddio yn effeithlon a bydd y crydau yn lleihau.

Targed: Dylai indecsau pridd fod yn 2-3 i P a 2 i K. Mae tyfiant meillion yn cael ei ddylanwadu fwy gan ddiffygion P a K na thyfiant glaswellt.

Dylid cywiro diffygion P a K ar adeg ailhadu gyda uwchffosffad sy'n doddadwy mewn dŵr, clorid potash neu gyda chyfansoddyn.

Gofynion P a K (kg/ha)

Indecs pridd	0	1	2	3
Ffosffad	125	80	50	30
Potash	125	80	50	0

Yn ddibynol ar y gofynion N, mae cyfansoddion fel 0:24:24 neu 17:17:17 yn aml yn addas i'w chwalu ar hadwelyau.

### NITROGEN (N)

Yn ysgogi tyfiant cynnar planhigion.

Ailhadu gwanwyn Chwalwch swm bychan o nitrogen (tua 50 kg/ha) i uchafu tyfiant.

Ailhadu haf Nid oes angen chwalu nitrogen. (Bydd y broses o drin y tir yn rhyddhau digon o nitrogen o'r priddoedd cynnes. Os yw nitrogen yn cael ei chwalu yr adeg yma gall gormod o dyfiant deiliog grynhoi cyn y gaeaf – sy'n arwain i fwy o'r cnwd yn marw yn y gaeaf).

Os yw meillion wedi eu cynnwys yn y gymysgfa, ni ddylid chwalu dim nitrogen. Byddai tyfiant glaswellt o N a chwelir yn debygol o dagu egin meillion.

### TAIL A SLYRI

Rhain yn ffynonellau da i P, ac yn arbennig K.

Cynnwys maethol nodweddiadol tail da byw (kg/t)

	DS%	N	P	K
Tail Buarth Gwartheg	25	6	3.5	8
Slyri Gwartheg Godro	6	3	1.2	3.5
Baw Dofednod	60	30	25	18

Mae ymgorffori tail neu slyri yn yr hadwely yn lleihau'r colledion maethol posib ac yn gwella gwedd y pridd.

Rhybudd: gall deunydd organig ar wyneb yr hadwely fod yn rwystr i'r dril a hefyd gyfyngu tyfiant egin oherwydd yr asidau organig gwenwynig a gynhrychir fel mae'n breuo. Sicrhewch fod tail gyda llawer o ddeunydd sych yn cael ei ymgorffori'n dda.

### GWRTEITHIAU WRTH DROS HAU

Dylai'r symiau P a K a chwelir fod yr un fath ag ar gyfer ailhadu llawn. Mae hi'n hanfodol peidio â chwalu unrhyw nitrogen. Bydd N a chwelir yn bwydo'r glaswellt presennol gan wedyn dagu'r egin sy'n tyfu.

DS: Trosi i Fetrig  
Kg /ha x0.8 = uned /erw